Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar Nos Lun 2 Rhagfyr 2024 am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburn, Llanafan
Minutes of Trawsgoed Community Council held on Monday 2nd December, 2024 at 7.30 p.m. held at Lisburn Hall, Llanafan.

**Presennol/Present**: Cyng./Cllr. E. Lewis (Cadeirydd);
Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. M. Davies, Cyng./Cllr. A. Evans, Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan; Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies.

**Ymddiheuriadau / Apologies**: Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. A. Richards, Cyng./Cllr. Sh. Edwards.

| | | |
|---|---|---|
| 94. | **Materion Personol** | **Personal Matters** |
| 95. | **Datgelu Buddiannau Personol**<br>Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau. | **Disclosure of Personal Interest**<br>Members were reminded to declare an interest when discusing items. |
| 96. | **Cynrychiolaeth o Bwyllgor Cymdeithas Cae Chwarae Maes y Felin**<br>Cais gan gynrychiolaeth o'r Pwyllgor uchod i rannu gwybodaeth gyda'r Cyngor Bro am ddiweddariad sefyllfa'r Maes Chwarae.<br><br>Gwelir na wneir gymaint o ddefnydd o'r Maes Chwarae fel yn y gorffennol a bod costau rhedeg y lleoliad yn cynyddu, gyda'r cyllid a dderbynnir mewn digwyddiadau codi arian yn lleihau.<br>Yn sgil hynny mae'r Pwyllgor wedi bod yn cynnal cyfarfodydd o fewn y gymuned am syniadau amgen ar gyfer y Maes Chwarae ond hyd yn hyn nid yw'r syniadau wedi dwyn ffrwyth.<br>Yn sgil hyn bydd yna bosibilrwydd o'r angen i edrych ar amodau'r les gyda Chyngor Sir Ceredigion o ran dyfodol y Maes Chwarae.<br>Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i drafod y les. | **Representation from the Committee of Maes y Felin Playing Field Association**<br>A request from representations of the above Committee to update the Community Council regarding the current situation of the Playing Field.<br><br>Recently there hasn't been as much use of the Playing Field as in the past and that the running costs are increasing with funding received at fundraising events reducing.<br>As a result the Committee has been holding meetings within the community about alternative ideas for the Playground but so far the ideas have not come to fruition.<br>In light of this there will be a possibility of the need to look at the conditions of the lease with Ceredigion County Council for the future of the Playing Field.<br>The Clerk to contact the County Council to discuss the lease. |
| 97. | **Asesiad Risg ac Asedau**<br>Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau. | **Risk and Asset Assessment**<br>There were no matters arising regarding Assets. |
| 98. | **Cofnodion Cyfarfod Diwethaf**<br>Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion canlynol gan gynnig ac eilio gan:<br>14eg Hydref, 2024: Cyng. C. Lloyd-Morgan, Cyng. P. Bonner<br>27ain Tachwedd, 2024: Cyng. A. Davies, Cyng. A. Evans; | **Minutes of the Last Meeting**<br>The following minutes were confirmed and accepted, proposed and seconded by:<br>14th October, 2024: Cllr. C. Lloyd-Morgan, Cllr. P. Bonnter<br>27th November, 2024: Cllr. A. Davies, Cllr. A. Evans. |

99. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
Nifer o faterion hanesyddol angen sylw, Cyngor Sir Ceredigion wedi cydnabod derbyn gwybodaeth am y materion, bydd angen aros i'r gwaith eu cwblhau gan dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion yn achlysurol os na byddant wedi gweithredu arnynt.

**Maters Arising from the Minutes**
A number of historical issues needing attention, Ceredigion County Council has acknowledged the reporting of these matters, it will be necessary to wait for the work to be completed and occasionally bring the issues to the attention of the County Council if they have not been acted upon.

100. Tir lithriad ger ochr yr Afon Ystwyth tu cefn i Abermagwr. Aros am ymateb pwy yw'r tir feddiannwr.

Landslide near the side of the River Ystwyth behind Abermagwr. Awaiting response of contact for landowner.

101. Y materion canlynol wedi cyfeirio at y Cyngor Sir.

The following have been referred to the County Council.

102. Tyllau ar y ffordd heibio i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn.

Pot holes on the road near Llanfihangel-y-Creuddyn School.

103. Cwlfert/ Drain ddwr agored wrth ben lôn Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn, parhau angen sylw gyda'r twll mawr yn y lleoliad yn beryglus.

Culvert/Open drain by Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn still needs attention, the large hole at the location is dangerous.

104.
105. Tyfiant o'r gwrychoedd angen torri ar ffordd uchaf yn Llanafan a'r ffordd rhwng y gyffordd Cnwch Coch ac Abermagwr. Cyngor Sir Ceredigion yn monitro.

Growth from the hedgerows need cutting on Ffordd Uchaf Llanafan, as well as left hand side between the junction to Cnwch Coch and Abermagwr. Ceredigion County Council investigating.

106. Bont Sigl, Llanafan: y Cyngor Sir wedi cau'r bont dros dro oherwydd diogelwch. Cysyllter gyda'r Cyngor Sir i ymholi pa mor hir fydd ar gau.

Bont Sigl, Llanafan: County Council has closed the bridge due to safety. Contact to be made with the County Council to enquire how long it will be closed.

107. Draeniau dwr wedi gorlenwi ar y ffordd rhwng Llanafan a'r B4340 sy'n achosi llifogydd ar y B4340.

Blocked water drains on the road between Llanafan and the B4340 causing flooding on the B4340.

108. Mynychodd y Cyng. C. Lloyd-Morgan y cyfarfod rhwng cynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion a Chynghorau Tref a Chymuned 26ain Tachwedd, 2024

Cllr. C. Lloyd-Morgan attended the meeting between representatives of Ceredigion County Council and Town and Community Councils on 26th November, 2024.

**Materion Cyllidol**

109. Derbyniadau:

110. £1,733.33 Rhan 3 Praesept 2024/2025 ar 30/10/2024.
Llog y Banc £9.97 ar 06/09/2024

**Finance**

Receipts:

£1,733.33 Part 3 Precept 2024/2025 on 30/10/2024.
Bank interest: £9.97 received 06/09/2024.

111. Taliadau

Payment of Invoices:

112. Penderfynwyd talu anfoneb PBonner o £330.00 am waith fel a nodir yn yr amcan-bris canlynol Chwefror 2024: torri llwybrau Llwynprenteg, Pont Sigl, Ffordd Uchaf £150.00 a £180 am dorri porfa Tir Comin, Llanfihangel-y-Creuddyn.
Cynigiwyd y taliad gan Cyng. A. Davies ac eiliwyd gan Cyng. M. Davies. Datganodd Cyng. P. Bonner ddiddordeb wrth drafod yr eitem yma, ac ymadawodd â'r cyfarfod.

It was resolved to pay PBonner £330.00 for work undertaken as per following quotation February 2024: £150 Path clearance Llwynprenteg, Pont Sigl, Ffordd Uchaf. £180 Grass cutting Tir Comin, Llanfihangel-y-Creuddyn.
Proposed by Cllr. A. Davies and seconded by Cllr. M. Davies. Cllr. P. Bonner declared an interest when discussing the item and removed himself from the meeting.

113. Penderfynwyd talu anfoneb am y Dorch Pabi Coch o £20.00. Cynigiwyd taliad gan Cyng. M. Davies ac eiliwyd gan Cyng. P. Bonner.

It was resolved to pay invoice of £20.00 for the Poppy Wreath. Payment proposed by Cllr. M. Davies and seconded by Cllr. P. Bonner.

114. Hefyd cyflwyno rhodd o £10.00 tuag at y Lleng Brydeinig, Cangen Aberystwyth. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. P. Bonner ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.

Also a £10.00 donation towards the British Legion, Aberystwyth Branch. Payment proposed by Cllr. P. Bonner and seconded by Cllr. C. Lloyd-Morgan.

115. Costau Banc: Awst: £5.00; Medi: £5.00; Hydref: £5.00

Bank Charges: August: £5.00; September: £5.00; October: £5.00.

116. **Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn**
Danfonwyd ymateb i'r ymgynghoriad adolygu'r ysgol.

**Llanfihangel-y-Creuddyn School**
A response had been forwarded to the consultation review of the School.

117. **Gohebiaeth**

**Correspondence**

118. **Rhannu Gwybodaeth**

**Sharing of Information**

119. Mae gwaith cynnal a chadw wedi dechrau ar ffordd y B4340 ger Royal Oak, Llanafan, gyda'r ffordd ar gau am ychydig wythnosau.

Maintenance work has begun on the B4340 road near Royal Oak, Llanafan, road will be closed for a few weeks.

120. Golau Fflachio tu allan i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn yn fflachio ar wahanol adegau o'r dydd a'r nos ac nid fel y dylid wneud ar adeg dechrau a cau yr ysgolion.

Flashing Light outside Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn flashes at different times of the day and night and not as arranged at beginning and end of school day.

121. Cyflwr y ffordd o Lanafan i'r B4340 angen sylw, draeniau wedi gorlenwi a tyllau yn yr arwynebedd.

Road condition from Llanafan to the B4340 needs attention, overfilled drains and potholes.

122. Cynhaliwyd Gwasanaeth Dydd Sul y Cofio yn Llanafan gyda'r Cadeirydd yn cyflwyno Torch Pabi ar y Gofgofeb.

A Remembrance Sunday Service was held in Llanafan with the Chairman presented a Poppy Wreath on the War Memorial.

123. Gwelir bod angen gwaith cynnal a chadw ar y gatiau o flaen y Gofgofeb. Trefniadau i'w gwneud.

It was reported that the gates in front of the War Memorial require maintenance. Arrangements to be made.

124. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**DATE OF NEXT MEETING**

| | |
|---|---|
| Nos Lun 6ed Ionawr 2025 am 7.30y.h. yn Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn. | Monday 6th January, 2025 at 7.30p.m. at Llanfihangel-y-Creuddyn School. |